
Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Etholiad y Senedd 2026

## Dyma beth sydd angen i ti wybod




senedd.cymru



# Mae Cymru'n Dewis

Os wyt ti’n 16 oed neu'n hŷn ar 7 Mai 2026 ac yn byw yng Nghymru, rwyt ti’n cael pleidleisio yn etholiad nesaf y Senedd.

Mae'r llyfryn hwn yn trafod yr etholiad yn fanylach, ond dyma bum peth allweddol y mae angen i ti eu gwybod:

- **Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru.** Mae’r Senedd yn pasio deddfau am bob math o bethau sy'n effeithio ar dy fywyd bob dydd yng Nghymru.
- **Y Senedd sy’n penderfynu ynghylch pethau fel** ysbytai a meddygon teulu, ysgolion ac addysg, trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd, ffermio, diwylliant, yr amgylchedd a’r Gymraeg.
- **Ar 7 Mai 2026 bydd gen ti un bleidlais** i ddewis y blaid neu’r ymgeisydd annibynnol rwyt ti am iddyn nhw gynrychioli dy ardal yn y Senedd.
- **Bydd gan yr Aelodau o’r Senedd rwyt ti’n eu hethol** ym mis Mai 2026 y pŵer i wneud penderfyniadau sy’n effeithio ar bawb yng Nghymru.
- **Mae’n amser gwych i gymryd rhan.** Gwna’n siŵr dy fod di wedi cofrestru i bleidleisio erbyn 20 Ebrill 2026.

# Pam mae'r etholiad yn bwysig?


Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru. Senedd Cymru, nid Senedd y DU, sy'n pasio deddfau am bob math o bethau sy'n effeithio ar dy fywyd bob dydd yng Nghymru.

Gall y Senedd wneud cyfreithiau mewn meysydd gan gynnwys:

- ysbytai a meddygon teulu
- ysgolion ac addysg
- trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd
- ffermio ac anifeiliaid
- yr amgylchedd
- y Gymraeg

Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried amgylchiadau yng Nghymru a allai fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Bydd gan y 96 o Aelodau o'r Senedd fydd yn cael eu hethol ym mis Mai 2026 y pŵer i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.



***Oeddet ti'n gwybod?***

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno taliadau am fagiau siopa untro yn 2011. Mae cyfreithiau eraill sydd wedi cael eu pasio gan y Senedd sydd ond yn berthnasol i Gymru yn cynnwys y terfyn cyflymder o 20mya, a chaniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.

# Mae dy bleidlais di o bwys

Os wyt ti'n 16 oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru, rwyt ti'n gallu pleidleisio yn etholiad y Senedd 2026. Ond rhaid i ti gofrestru yn gyntaf.

Ar ôl i ti gofrestru, caiff cerdyn pleidleisio ei anfon atat ti. Bydd hwn yn dweud wrthyt ti ble mae angen i ti fynd i bleidleisio (dy orsaf bleidleisio) ar ddiwrnod yr etholiad.

Os na elli di gyrraedd gorsaf bleidleisio, gelli di gofrestru ymlaen llaw i **bleidleisio drwy'r post**, neu gelli di ddewis rhywun dibynadwy i bleidleisio ar dy ran (yr enw am hyn yw **pleidlais drwy ddirprwy**).

**Does dim modd pleidleisio ar-lein.**

Dyma dy gyfle di. Gwna'n siŵr dy fod di wedi cofrestru i bleidleisio erbyn 20 Ebrill 2026.



**Cyn yr etholiad**

- Bydd pleidiau gwleidyddol yn paratoi 'rhestrau plaid' gyda hyd at wyth ymgeisydd ar gyfer pob etholaeth. Gall ymgeiswyr annibynnol, hefyd, sefyll mewn etholiad.
- Penderfyna dros bwy y byddi di'n bleidleisio. Byddi di'n gallu gweld pwy yw'r ymgeiswyr yn dy etholaeth ar wefan y Comisiwn Etholiadol ar ôl 9 Ebrill.

**Ar ddiwrnod yr etholiad**

- Yn dy orsaf bleidleisio, fe gei di bapur pleidleisio a bydd gen ti un bleidlais ar gyfer y blaid neu'r ymgeisydd annibynnol rwyt ti am weld yn dy gynrychioli yn y Senedd.
- Bydd dy bapur pleidleisio yn dangos pawb sydd ar restrau'r pleidiau, ynghyd ag unrhyw ymgeiswyr annibynnol, fel y gelli di weld pawb sy'n yn ymgeisio yn yr etholiad yn dy etholaeth di.

**Sut bydd yr Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol?**

- Os bydd plaid yn ennill digon o bleidleisiau, bydd yn ennill un neu fwy o seddi yn y Senedd. Felly, os bydd plaid yn ennill tair sedd mewn etholaeth, caiff y tri pherson uchaf ar ei rhestr eu hethol yn Aelodau dros yr ardal honno.
- Enw'r system bleidleisio newydd yw'r 'system rhestr gyfrannol gaeedig'. Felly, bydd pob Aelod yn cael ei ethol yn seiliedig ar gyfran y pleidleisiau y mae pob plaid neu ymgeisydd annibynnol yn eu cael.
- Mae hyn yn golygu, os caiff Plaid A 50% o'r pleidleisiau mewn etholaeth, bydd y blaid honno yn debygol o ennill tair o'r chwe sedd. Os caiff Plaid B 30%, bydd yn debygol o ennill dwy o'r chwe sedd.
- Os bydd gan ymgeisydd annibynnol ddigon o bleidleisiau, bydd hefyd yn ennill sedd yn y Senedd.

# Beth mae Aelodau o'r Senedd yn ei wneud?

O fis Mai 2026, bydd gan y Senedd 96 o Aelodau.

Caiff Aelodau o’r Senedd eu hethol o bob rhan o Gymru i dy gynrychioli di a dy gymuned yn y Senedd.



**Yn y Senedd**

Yn ystod y tymor, bydd holl Aelodau o’r Senedd yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos yn y Siambr ar gyfer y **Cyfarfod Llawn**.

Y Cyfarfod Llawn yw lle maen nhw'n siarad ar dy ran di, yn holi Gweinidogion Llywodraeth Cymru, yn trafod materion pwysig ac yn pleidleisio arnyn nhw, ac yn pasio deddfau.

Mae’r rhan fwyaf o Aelodau hefyd yn aelodau o bwyllgorau. **Pwyllgorau** yw grwpiau bach o Aelodau o wahanol bleidiau sy’n edrych ar bynciau neu faterion penodol sy’n effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru.

**Yn dy gymuned di**

Pan nad ydyn nhw'n gweithio yn y Senedd, mae gan y rhan fwyaf o Aelodau swyddfa leol yn eu hetholaeth neu ranbarth.

Yn ogystal â bod yn wleidyddion, maen nhw’n rhan o dy gymuned di.

Maen nhw’n cynnal sesiynau galw heibio, o'r enw **cymorthfeydd**, sy’n gyfle i ti gwrdd â nhw a thrafod materion lleol a allai fod yn bwysig i ti. Gelli di hefyd gysylltu â nhw ar-lein neu dros y ffôn.

Gallan nhw helpu os yn bosib, ac ar ôl clywed oddi wrthyt ti, gallai dy Aelodau dynnu sylw at dy bryder yn y Senedd. Gallan nhw ofyn cwestiwn neu drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn.

**Cysylltu â dy Aelodau**

Gelli di gysylltu ag unrhyw un o dy Aelodau – wyneb yn wyneb, ar-lein, neu dros y ffôn – dim ots dros bwy y gwnaethost ti bleidleisio. Mae pob un ohonyn nhw yn dy gynrychioli di yn gyfartal.

# Beth yw fy etholaeth?

Yn etholiad y Senedd yn 2026, bydd Cymru'n cael ei rhannu'n 16 o etholaethau newydd.

Bydd gan bob un o'r etholaethau hyn chwe Aelod, sy'n golygu y bydd cyfanswm o 96 Aelod yn cael eu hethol i'r Senedd.Gelli di ddod o hyd i dy etholaeth newydd drwy nodi dy god post yn ein map canfod etholaethau.

**1.** Bangor Conwy Môn

**2.** Clwyd

**3.** Fflint Wrecsam

**4.** Gwynedd Maldwyn

**5.** Ceredigion Penfro

**6.** Sir Gaerfyrddin

**7.** Gŵyr Abertawe

**8.** Brycheiniog Tawe Nedd

**9.** Afan Ogwr Rhondda

**10.** Pontypridd Cynon Merthyr

**11.** Blaenau Gwent Caerffili Rhymni

**12.** Sir Fynwy Torfaen


**13.** Casnewydd Islwyn

**14.** Caerdydd Penarth

**15.** Caerdydd Ffynnon Taf

**16.** Pen-y-bont Bro Morgannwg

Gallwch ddod o hyd i'ch etholaeth newydd drwy nodi eich cod post yn ein map canfod etholaethau.




X
MWY
O RYM
I CHI
MORE
POWER
TO YOU